South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

‘Eich gwneud yn fwy diogel yn eich cartref ac yn eich gwaith’

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Cardiff and Vale Coalition Of Disabled People

AGE Concern Cymru

HELP THE AGED WE WILL
Help the Aged yng Nghymru
Help the Aged in Wales

CARDIFF CAERDYDD

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU PERYGL

‘Eich gwneud yn fwy diogel yn eich cartref ac yn eich gwaith’

Er mwyn gwneud ein cymunedau’r llefydd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hwy rydym yn cynnal dwy seminar diogelwch tân ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl. Cynhelir y seminarau ar:

11th Mawrth 2010 yng Nghanolfan Orbit, Merthyr Tudful.
rhwng 10am - 3pm

ac ar 23 Mawrth 2010 yn Neuadd Sir Caerdydd, Caerdydd.
rhwng 10am - 3pm

Ffoniwch neu e-bostiwch i archebu eich lle erbyn 18 Chwefror 2010

Rhif Ffôn: 01443 232000
E-bost: swfs@southwales-fire.gov.uk
Minicom: 01443 232060

Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnal y seminarau uchod ar y cyd â Chynghrair Pobl Anabl Caerdydd a’r Fro, Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru. Bydd y seminarau yn darparu cyngor a chanllawiau ar ddiogelwch tân yn y cartref, beth y dylech ei ddisgwyl yn y gwaith yn ogystal â diogelwch tân ar gyfer busnesau. Mae’r seminarau am ddim ac yn cynnwys cinio a lluniaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl ac i weld ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth ewch i www.decymru-tan.gov.uk/gydraddoleb

Diogelwch Tân yn y Cartref

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnig cyfle i chi dderbyn Archwiliad Diogelwch Tân AM DDIM yn eich cartref, gan ymladdwyr tân o'ch gorsaf dân leol. Mae'r archwiliad yn cymryd tua 30 munud a byddwn yn darparu ac y gosod larymau mwg am ddim lle bydd eu hangen. Mae ymweliadau a larymau mwg arbenigol ar gael i bobl sydd â nam ar eu clyw.

Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth:
www.decymru-tan.gov.uk/eindiogelwch

Diogelwch Tân Busnes

Daeth y Gorchymyn Diogelwch Tân i rym ar 1 Hydref 2006 ac ers hynny mae wedi bod yn strategaeth i GTADC geisio hysbysu pob grŵp yn y gymuned ynghylch y ddeddfwriaeth, sut mae'n effeithio eu busnes a'r hyn y mae angen iddynt ei wybod yn arbennig. Mae nifer o feysydd wedi newid yn sylweddol a dylai perchnogion a rheolwyr fod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn os ydynt mewn busnes neu os ydynt yn cyflogi pobl eraill, yn enwedig os mai chi yw'r 'person cyfrifol' sydd â chyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch eraill petai yna dân.

Os ydych yn berchen neu'n rheoli adeilad neu fusnes yna mae'n bosib fod y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) yn berthnasol i chi.

Y Person Cyfrifol - Fel person cyfrifol, rhaid i chi sicrhau diogelwch eich gweithwyr ac unrhyw berson all ddod ar eich eiddo yn gyfreithlon ac unrhyw berson arall nad ydynt ar eich eiddo a allai gael eu heffeithio. Os ydych yn rhannu cyfrifoldeb gyda phobl eraill, (e.e. adeilad cyfagos, Tenant / Landlord neu adeilad amldenantiaeth) rhaid i chi gydweithredu drwy rannu gwybodaeth a chydweithio drwy ddarparu mesurau.

Dilynwch y ddolen ganlynol am ganllawiau pellach:
www.decymru-tan.gov.uk/busnes

Mae gan eich Gwasanaeth Tân ac Achub wir ddymuniad i wella diogelwch pobl hŷn a phobl anabl o fewn y gymuned a hyrwyddo neges diogelwch tân yn eglur er mwyn sicrhau fod pawb yn ddiogel, ac yn aros yn ddiogel.